# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2019

Amser: 08.30 - 08.51

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Lowri Hughes, Ysgrifenyddiaeth y Siambr |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Rheolwyr Busnes fod datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir wedi cael ei ychwanegu at  fusnes Dydd Mawrth.

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes y caiff y datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cymru Iachach - Blwyddyn Yn Ddiweddarach ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2019 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – Blaenoriaethau Brexit (30 munud)

**Dydd Mercher 25 Medi 2019 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Hawliau Pleidleisio i Garcharorion (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Cefnogi a Hybu'r Gymraeg (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

### 3.4 Llythyr at y Llywydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a nododd fod yna bellach ddatganiad gan y llywodraeth ar Brexit wedi'i drefnu ar gyfer 16 Gorffennaf. Cytunwyd i drefnu datganiad y Cadeirydd ar 17 Gorffennaf, yn amodol ar gadarnhad gan y Pwyllgor ei fod yn dal yn awyddus i fwrw ymlaen, yng ngoleuni'r datganiad a ychwanegwyd yn ddiweddar gan y llywodraeth.

## 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2020-21

### 4.1 Amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2020-21

*Amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2020-21*

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i'w hysbysu am yr amserlen gyllidebol arfaethedig, ac y bydd yn awr yn ysgrifennu at bob Pwyllgor arall.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, a dychwelyd at y mater yn eu cyfarfod cyntaf ym mis Medi.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Ymgynghoriad ar Filiau Cydgrynhoi

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y Rheol Sefydlog ddrafft a chytunwyd i ddychwelyd ati yn yr hydref, ar ôl trafod gyda'u grwpiau. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymgynghori ar y cynigion.

## 6 Papur i'w nodi - Gohebiaeth at y Llywydd

### 6.1 Llythyr at y Llywydd gan y Prif Weinidog

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytunwyd i aros am ymatebion gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol cyn ystyried ymhellach.